

Gorolwg o Sesiynau ECAD5010C 23-24

D.S. Gall trefn y sesiynau hyn newid yn unol ag amgylchiadau ac fe fydd y themâu a drafodir yn gorgyffwrdd. Cynhelir pob sesiwn wyneb yn wyneb ar y campws.

Dyddiad	Cynnwys	Amser
07.11.23	Cyflwyniad byr i nodau'r modiwl cyn PAP2 Creu rhestr o dasgau i'w cyflawni yn ystod PAP2 (h.y. adnbaod testunau ymchwil posibl)	9-11
09.01.24 9-11yb	Sesiwn 1: Cyflwyniad i'r modiwl a'r fanyleb asesu - Ail-ymweld â'r Ymagweddau Ymchwil - Archwilio ac adnabod themâu ymchwil posibl mewn cyd-destun addysgol a dyluniad ymchwil effeithiol. Sesiwn 2: Cyflwyniad i Adolygiad Llenyddiaeth – darllen beirniadol	9-11 2-4
11.01.24.	Sesiwn 3: Dull/Ymagwedd Mosaig - Cyflwyniad i ddylunio ymchwil - Defnyddio'r Dull Mosaig i glywed lleisiau a phrofiadau disgyblion Sesiwn 4: Cyflwyniad i 'cyfweliadau' fel offeryn ymchwil - Gwerthuso'n feirniadol cryfderau a chyfyngiadau cyfweliad fel offeryn ymchwil Sesiwn 5: Cyflwyniad i 'holiaduron' fel offeryn ymchwil - Gwerthuso'n feirniadol cryfderau a chyfyngiadau holiadur fel offeryn ymchwil	9-11 11-1
16.01.24	Sesiwn 6: Dylunio ymholiad ymchwil ar raddfa fechan - Gan ddefnyddio enghreifftiau o gwestiynau ymchwil, mewn grwpiau, datblygwch ffyrdd o ddefnyddio holiadur a'r Dull Mosaig (cyfweliad) i gynhyrchu data i ateb y cwestiwn ymchwil. Sesiwn 7: Cymhwyso'r broses o ddylunio ymholiad - Mewn parau, datblygwch eich enghreifftiau o gwestiwn ymchwil a sut y bydd holiaduron a'r dull Mosaig yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r cwestiwn.	9-11 2-4
18.01.24.	Sesiwn 8: Creu eich Cwestiwn Ymchwil/Dylunio Offer ymchwil. - Defnyddio adborth i fireinio eich cwestiwn ymchwil a'r offer ymchwil (cwestiynau holiadur a chyfweliad) Sesiwn 9: Bod yn ymarferydd moesegol - Ail-ymweld â chaniatâd a chydsyniad cyfranogwyr; cyfrinachedd; anhysbysrwydd; rheoli data. Sesiwn 10: Cyflwyniad i Ffurflen Foeseg y Brifysgol - Ystyried cydsyniad a chaniatad ar gyfer eich prosiect ymchwil – Diwrnod Ymchwil Cwblhau a chyflwyno'r ffurflen foeseg erbyn 5yp ** 18.01.24	9-11 11-1 2-4
23.01.24	Sesiwn 11 a 12: Paratoi ar gyfer Diwrnod Ymchwil - Mireinio a chwblhau'r cwestiynau holiadur/cyfweliad - Cwblhau'r taflenni caniatâd cyfranogwyr - Cyflwyno eich cais ymchwil mewn grwpiau	9-11 2-4

24.01.24	DIWRNOD YMCHWIL- Ysgol PAP2 • Diwrnod Ymchwil yn yr Ysgol (Ysgol PAP2)	
25.01.24	Sesiwn 13: Dadansoddi data • Cyflwyno a dadansoddi data Sesiwn 14: Adborth o'r Diwrnod Ymchwil • Adolygu a thrafod canfyddiadau diwrnod ymchwil • Gwneud argymhellion priodol ar gyfer trawsnewid ymarfer personol yn seiliedig ar werthusiad beirniadol o ganfyddiadau a phroses yr ymchwil	11-1 2-4
08.02.24.	Sesiwn 15: Gweithdy Cefnogi Aseiniad – C&A	2-4